

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016 - 2017

MYNEGAI I BLANT A PHOBL IFANC SYDD AG ANABLEDDAU AC ANGHENION YCHWANEGOL


CAERDYDD A BRO MORGANNWG



JULIA SKY

SWYDDOG MYNEGAI ANABLEDD (CAERDYDD)

GWEINYDDWR MYNEGAI ANABLEDD (BRO MORGANNWG)



CYNNWYS**TUDALEN**

CEFNDIR I'R MYNEGAI	3
CRYNODEB	4
PRIF LWYDDIANNAU 2016-17	5
BLAENORIAETHAU 2017-18	6
MANTEISION Y MYNEGAI	7
CEISIADAU AM WYBODAETH	8
HYRWYDDO	9
ADBORTH	10
FFEITHIAU A FFIGURAU AM BLANT A PHOBL IFANC YN RHAN O'R MYNEGAI (CAERDYDD)	11 – 25
FFEITHIAU A FFIGURAU AM BLANT A PHOBL IFANC YN RHAN O'R MYNEGAI (BRO MORGANNWG)	26 - 35
MANYLION CYSWLLT	36

CEFNDIR

Mae Deddf Plant 1989 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl ddarparwyr gwasanaeth gydweithio'n agos gyda'i gilydd, mewn partneriaeth â rhieni, i sefydlu system i asesu anghenion plant a phobl ifanc gydag anableddau ac anghenion ychwanegol, ac anghenion eu teuluoedd. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu'r hyn mae'r Ddeddf yn ei alw'n 'gofrestr' - 'Mynegai' yw'r term a ddefnyddir gan Fro Morgannwg a Chaerdydd.

Lansiwyd y Mynegai i gychwyn yn y Fro ym mis Ebrill 2005, ac fe gafodd ei ail-lansio ym mis Ebrill 2012 drwy gymorth ariannol y grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae Gweinyddwr y Mynegai wedi'i osod o fewn fframwaith ehangach y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGID). Mae'r Grant Teuluoedd yn Gyntaf yn ariannu swydd Gweinyddwr Mynegai Dros Dro a chynhyrchu cylchlythyr y Mynegai.

Oherwydd llwyddiant Mynegai'r Fro, mae Cyngor Caerdydd wedi adlewyrchu model y Fro, drwy weithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro. Mae hyn wedi arwain at lansio Mynegai Caerdydd ym mis Ebrill 2016. Cafodd Swyddog Mynegai Caerdydd ei benodi ym mis Tachwedd 2016 a chaiff ei ariannu drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. Mae cylchlythyr y Mynegai yn rhifyn ar gyfer Caerdydd a'r Fro ac mae wedi cynyddu mewn maint i 16 tudalen. Cynhyrchwyd y rhifyn cyntaf ar y cyd ym mis Gorffennaf 2016, cyn gwyliau'r haf.

Diben y Mynegai yw rhoi gwybodaeth uniongyrchol i deuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol am wasanaethau, clybiau a gweithgareddau lleol. Rydym yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad, yn cyfeirio at asiantau perthnasol ac yn sicrhau bod gan deuluoedd yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau a allai effeithio arnynt.

Bydd teuluoedd sydd wedi cofrestru'n rhan o'r Mynegai yn derbyn ein cylchlythyr chwarterol – 'y Mynegai' - a negeseuon rheolaidd am weithdai, cyngor ar fudd-daliadau, rhwydweithio, clybiau a gwasanaethau, cyfleoedd hyfforddi, cymorth i ofalwyr ac unrhyw wybodaeth berthnasol gan asiantaethau eraill. Gall teuluoedd hefyd ofyn am wybodaeth benodol sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r Mynegai hefyd yn rhoi cymorth i ddarparwyr gwasanaeth o ran cynllunio eu gwasanaethau a'u cyllidebau. Gall roi darlun cliriach o faint o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau sydd yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd cael darlun cliriach o'r lefel angen yn galluogi'r asiantaethau i gydweithio i gynllunio gwasanaethau'n well.

Cyfeiriwyd y plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u cynnwys yn y Mynegai gan eu rhiant /gofalwr, ymwelydd iechyd, gweithiwr cymdeithasol ac asiantaethau eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir yn gofnod ffeithiol o anghenion y plentyn, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ar system ddiogel ar wahân gan bob Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn, cysylltwch â:

CAERDYDD

Swyddog Mynegai Anabledd
029 2035 1700

Mynegaianabledd@caerdydd.gov.uk

BRO MORGANNWG

Gweinyddwr Mynegai Anabledd
01446 704 736

disabilityindex@valeofglamorgan.gov.uk

CRYNODEB

CAERDYDD A BRO MORGANNWG



Y Mynegai yw cofrestr wirfoddol Caerdydd a Bro Morgannwg o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol.



I fod yn rhan o'r Mynegai mae angen i'r plentyn neu'r person ifanc:

- fod ag anabledd wedi'i ddiagnosio, sydd wrthi'n cael ei ddiagnosio neu sydd ag anghenion ychwanegol parhaus a gadarnhawyd
- bod hyd at 18 oed
- byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg



Nod y Mynegai yw cynnig gwybodaeth i:

- Deuluoedd - gan roi'r newyddion diweddaraf iddynt am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau
- Gweithwyr Proffesiynol - yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol am anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol
- Sefydliadau – hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth presennol

CAERDYDD



Bu 156 o gofrestriadau newydd i'r Mynegai rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017



Cafodd 10 o blant a phobl ifanc eu tynnu oddi ar y Mynegai yn y flwyddyn ddiwethaf



Mae'r rhan fwyaf (62%) o'r rhai hynny sy'n rhan o'r Mynegai yng Nghaerdydd yn wrywaidd



Mae'r gyfran uchaf (32%) o'r rhai hynny sy'n rhan o'r Mynegai yng Nghaerdydd rhwng 8 ac 11 oed



Mae 62% o'r rhai hynny sy'n rhan o'r Mynegai yng Nghaerdydd yn dod o wardiau sy'n cynnwys rhai o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd.



Anhwylder Sbectwm Awtistig ac Anabledd Dysgu yw dau o'r prif resymau dros gofrestru, gan fod yr un gyfran o bobl wedi'u cofrestru i fod yn rhan o'r Mynegai, sef 24% yr un.

BRO MORGANNWG



Roedd 501 o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru yn y Mynegai ym mis Mawrth 2017



Bu 128 o gofrestriadau newydd i'r Mynegai rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017



Cafodd 23 o blant a phobl ifanc eu tynnu oddi ar y Mynegai yn y flwyddyn ddiwethaf



Mae'r rhan fwyaf (69%) o'r rhai hynny sydd yn rhan o'r Mynegai yn y Fro yn wrywaidd



Mae'r gyfran uchaf (34%) o'r rhai hynny sy'n rhan o'r Mynegai yn y Fro rhwng 4 a 7 oed



O'r holl blant a phobl ifanc yn rhan o'r Mynegai, mae gan 14% ohonynt frawd neu chwaer hefyd yn rhan ohono.



Mae 33% o'r rhai hynny sy'n rhan o'r Mynegai yn y Fro yn dod o wardiau sy'n cynnwys rhai o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg.



Anhwylder Sbectwm Awtistig yw'r prif reswm dros gofrestru ar gyfer 31% o'r rhai hynny sy'n rhan o'r Mynegai



Mae nifer y bobl yn y Fro sy'n cofrestru i fod yn rhan o'r Mynegai gan nodi Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol fel eu prif reswm, wedi dyblu yn y flwyddyn ddiwethaf

PRIF LWYDDIANNAU 2016-17

CAERDYDD A BRO MORGANNWG



Ail-frandio'r Mynegai Anabledd yn Y Mynegai gyda phwyslais ar gynnig gwasanaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau **neu** anghenion ychwanegol, yn dilyn adborth gan rieni a gweithwyr proffesiynol



Anogir pawb i ychwanegu eu gwasanaethau at wefan Dewis Cymru a ddefnyddir ar gyfer holl ymholiadau a gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd



Dyluniwyd a chynhyrwyd taflenni, llawlyfr gwybodaeth, posteri a baneri gosod y Mynegai mewn partneriaeth â phartneriaid perthnasol ar draws Caerdydd a'r Fro a'u dosbarthu iddynt



18fed rhifyn o gylchlythyr y Mynegai. Y rhifyn cyntaf mewn partneriaeth â Chaerdydd a'i argraffu'n Gymraeg ac yn Saesneg.



21ain rhifyn o gylchlythyr y Mynegai wedi'i ymestyn i fod yn rhifyn 16 tudalen yn dilyn mwy o sefydliadau cysylltiedig â'r Mynegai yn ychwanegu cynnwys at y cylchlythyr.

CAERDYDD



156 o gofrestriadau newydd â'r Mynegai



Cynhaliwyd lansiad swyddogol y Mynegai yng Nghaerdydd yn Ysgolion Arbennig Riverbank, Woodlands a Tŷ Gwyn ym mis Mawrth 2016.=



Ffurflen gofrestru ar-lein wedi'i datblygu ac yn fyw ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd.



Cronfa ddata ar-lein wedi'i chreu i gadw gofrestriadau'n ddiogel o fewn system cronfa ddata'r GGiD



Tudalennau gwe wedi'u datblygu i roi gwybodaeth ar y Mynegai



Partneriaeth lwyddiannus â Gweithredu Dros Blant (Tîm o Amgylch y Teulu (Anabledd)) a phresenoldeb yng Nghanolfan Blant Dewi Sant, gan wella atgyfeiriadau rhwng gwasanaethau



Arddangos posteri hyrwyddo a arddangosir ar 100 o arosfannau bws ar draws y Ddinas

BRO MORGANNWG



Wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd i sefydlu Mynegai ar y cyd



Wedi datblygu ffurflen gofrestru ar-lein



Bu 128 o gofrestriadau newydd â'r Mynegai rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017



Mae tudalennau gwe 'Plant ag anghenion ychwanegol' wedi'u gweld 3,865 o weithiau (cynnydd o 31% o'r flwyddyn gynt) a 1,255 o sesiynau



Yn amlwg ar gyfryngau cymdeithasol drwy gyfrifon Facebook a Twitter

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro



Cysylltiadau cryf wedi'u sefydlu â'r Swyddog Cefnogi Gofalwyr, Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig, Swyddog Datblygu Chwarae'r Anabl a Swyddog Datblygu Chwarae i wella cyfeiriadau rhwng gwasanaethau.



Partneriaeth lwyddiannus â Llinell Gymorth Teuluoedd yn Gyntaf a phresenoldeb yng Nghanolfan Blant Llandochau



Wedi datblygu adborth ar-lein i gasglu gwybodaeth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd drwy'r Mynegai

BLAENORIAETHAU 2017 - 2018

CAERDYDD A BRO MORGANNWG



Adolygu cofrestriadau â'r Mynegai yn unol â Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ADYTA)



Cael adborth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol o ran ba mor ddefnyddiol yw'r Mynegai a'i ddatblygiad



Cynhyrchu cylchlythyr 16 tudalen o hyd ar gyfer bob chwarter i'w anfon i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol a'i uwchlwytho ar wefannau GGid Caerdydd a'r Fro



Cynnal adolygiadau / diweddariadau blynyddol ar gyfer holl gofrestriadau â'r Mynegai



Hyrwyddo Dewis Cymru i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ac annog yr holl Wasanaethau Cymorth i Deuluoedd i restru eu sefydliadau fel adnodd ar Dewis Cymru



Ailsefydlu cysylltiad â Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro



Parhau i fanteisio ar gyfleoedd allgymorth a hyfforddiant i hyrwyddo a datblygu'r Mynegai ymhellach yng Nghaerdydd a'r Fro



Gweithio gyda Chanolfan Blant Ysbyty Athrofaol Cymru ac Elusen Ysbyty Plant Arch Noa i hyrwyddo'r Mynegai

CAERDYDD



Recriwtio cymorth gweinyddol i gynyddu cyfleoedd allgymorth i hyrwyddo'r Mynegai



Anfon cylchlythyr e-Newyddion y mynegai i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, ac anfon diweddariadau rhwng rhifynnau o'r cylchlythyr



Datblygu tudalennau gwe i gynnwys Hysbysfwrdd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd o ran hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau



Sefydlu cysylltiad â hybiau lleol i ddarparu sesiynau i hyrwyddo'r Mynegai



Tynnu sylw at y Mynegai ar y cyfryngau cymdeithasol yng Nghaerdydd drwy dudalennau gwe Facebook / Twitter y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd



Sefydlu cysylltiad â'r Tîm Iechyd ac Anableddau Plant a nodi plant a phobl ifanc sy'n gymwys ar gyfer y Mynegai, ond nad ydynt wedi'u cofrestru'n barod



Nodi'r broses atgyfeirio ar gyfer Aseidiadau Rhieni Ofalwyr a Gofalwyr Ifanc

BRO MORGANNWG



Cwblhau'r ffurflen gofrestru ar-lein ar gyfer y Mynegai a'i chyhoeddi ar dudalennau gwe



Datblygu hyb adnoddau / llyfrgell taflenni gwybodaeth i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ar dudalennau gwe'r Mynegai



Gweithio gyda'r Swyddog Allgymorth GGiD i ddarparu rhaglen allgymorth



Sicrhau bod deunyddiau hyrwyddo newydd ar gael mewn meddygfeydd ac ysgolion



Cwrdd ag ysgolion â Chanolfannau Adnoddau Arbennig i hyrwyddo'r Mynegai – Ysgol Gynradd Parc Jenner, Ysgol Gynradd Palmerston, Ysgol Gynradd Heol Holltwn



Gweithio gyda'r Swyddog Datblygu Gofalwyr ac eraill i sefydlu proses atgyfeirio gyson ar gyfer Aseidiadau Rhieni Ofalwyr a Gofalwyr Ifanc



Sefydlu cysylltiad â'r Gweithiwr Prosiect Gofalwyr Ifanc newydd (YMCA Caerdydd) a'r Swyddog Cymorth i Ofalwyr (Tîm Gofal (Anableddau) Plant)



Adolygu'r daflen Bontio yn unol â'r Bil ADYTA

MANTEISION Y MYNEGAI

Trwy gofrestru â'r Mynegai, bydd gan rieni a gofalwyr fynediad at, a byddant yn derbyn, y canlynol:



Cylchlythyr y Mynegai



Yr Hysbysfwrdd Mynegai



Cylchlythyr e-Newyddion y Mynegai / negeseuon wedi'u teilwra



Pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw geisiadau am wybodaeth

CYLCHLYTHYR Y MYNEGAI

Mae Cylchlythyr y Mynegai yn cael ei gynhyrchu'n chwarterol, a bydd yn cael ei anfon i'r holl deuluoedd sydd wedi cofrestru â'r Mynegai. Prif fwriad y Mynegai yw sicrhau ei fod yn llawn gwybodaeth am wasanaethau, gweithgareddau a grwpiau lleol; ac yn cynnwys gwybodaeth am gyngor ar fudd-daliadau, gwybodaeth i ofalwyr, cyfleoedd hyfforddiant a llawer mwy.

YR HYSBYSFWRDD MYNEGAI



The Index Noticeboard

Keep up to date with what's on... for children and young people with special and particular needs, and their families

APRIL 2017

Activities Events Cinema

If you would like to include an event on The Index Noticeboard or in The Index Newsletter please contact the Disability Index Administrator:

01446 704 736 Disability Index Administrator

Gellid cael mynediad at yr hysbysfwrdd ar wefan Bro Morgannwg. Ewch i Hafan y Mynegai a chlicio ar yr Hysbysfwrdd:

www.valeofglamorgan.gov.uk/disabilityindex

Pwrpas yr Hysbysfwrdd yw sicrhau bod gan deuluoedd wybodaeth fisol gyfredol am yr hyn sy'n digwydd ledled y Fro i blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Ar gael yng Nghaerdydd 2017/18



NEWYDDION Y MYNEGAI

Ynghyd ag anfon cylchlythyr y Mynegai a diweddarau a chynnal Hysbysfwrdd y Mynegai, bydd teuluoedd hefyd yn derbyn e-Fwletinâu drwy gylchlythyr e-Newyddion y Mynegai, yn ogystal â dolen at y cylchlythyr chwarterol ar-lein.

Mae 66% o rieni/gofalwyr wedi rhoi cyfeiriad e-bost er mwyn derbyn cylchlythyr e-Newyddion y Mynegai yn y Fro.

TABL 1: NEGESEUON / E-BYST / E-FWLETINAU WEDI'U HANFON AT DEULUOEDD YN Y MYNEGAI YM MRO MORGANNWG

	2013/2014	2014/2015	2015/2016	2016/2017
Bro Morgannwg	22	42	45	29

CEISIADAU AM WYBODAETH

YMHOLIADAU I WASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD Y FRO

Mae modd i deuluoedd gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd / Gweinyddwr y Mynegai Anabledd i wneud cais am wybodaeth benodol a allai fod o ddiddordeb iddynt.

TABL 2: YMHOLIADAU A DDERBYNIWYD

	2013/2014		2014/2015	2015/2016	2016/2017
Bro Morgannwg	99		84	113	89

ENGHRAIFFT O YMHOLIAD:

Cafwyd ymholiad gan daid/nain a dderbyniodd gyfrifoldeb rhiant.

Gofynnodd y taid/nain am wybodaeth am gymorth i deuluoedd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro ar ôl i un o'u hwyron/wyresau gael ei allgau o'i ysgol. Yn dilyn trafodaethau â'r taid/nain, nodwyd bod y plentyn wedi'i allgau o'r ysgol o ganlyniad i anawsterau ymddygiadol/emosiynol, a bod gan yr ŵyr/wyres arall anawsterau lleferydd ac iaith.



Roedd y ddau blentyn wedi'u cofrestru â'r Mynegai o ganlyniad i'w hanghenion, ac anfonwyd gwybodaeth at yr ymholwr gyda manylion am nifer o wasanaethau cymorth gan gynnwys:

Gwasanaeth Niwroddatblygiadol, Gwasanaeth Lles Emosiynol, Sefydliad Rheoli Ymddygiad heriol, Afasic Cymru, SNAP Cymru, Canolfan Cyngor ar Bopeth, Grandparents Plus, Asiantaeth Cymorth Gofal Plant, ERIC, Cynllun Cymorth Lleoedd, Gwasanaeth Seicoleg Addysgol.

Roedd unrhyw wasanaeth a oedd wedi'i gofrestru ar wefan Dewis Cymru wedi'i gysylltu â'i adnodd Dewis Cymru yn yr ymholiad e-bost.

Hefyd, cafodd y taid/nain ei atgyfeirio at y Llinell Gymorth Teuluoedd yn Gyntaf am gyngor a chefnogaeth o ran rhai o'r materion eraill yr oedd ei deulu yn eu hwynebu.














Yn dilyn yr ymholiad, rhoddodd y taid/nain adolygiad o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro ar Facebook:

“Des o hyd i'r gwasanaeth hwn pan oeddwn mewn angen ac ni allaf ddiolch digon am y cyngor ymarferol a defnyddiol a'r gwasanaeth cyfeirio a'm helpodd gyda'm pryderon.”

HYRWYDDO'R MYNEGAI AR DRAWS CAERDYDD A'R FRO

ALLGYMORTH CAERDYDD A'R FRO

Mae'r Tîm GGID yn hybu'r Mynegai mewn digwyddiadau a chyfarfodydd a dyma enghreifftiau:

-  Grŵp Cefnogi Rhieni Afasic Cymru
-  Fforwm Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Anabledd Caerdydd a'r Fro
-  Cyfarfod Tîm Iechyd ac Anableddau Plant
-  Clinigau Canolfan Blant
-  Cyfarfod Llinyn Anabledd
-  Diwrnod Cynhwysiant y Blynnyddoedd Cynnar
-  Lansiad Gwasanaeth Lles Emosiynol
-  Diwrnodau Hwyl i'r Teulu gyda Dechrau'n Deg
-  Kidz to Adultz Cymru
-  Lansiad y Mynegai yng Nghaerdydd
-  Sesiynau Galw Heibio Llyfrgelloedd / Hybiau yng Nghaerdydd
-  Diwrnod Agored a Lansio y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol
-  Cyfarfod Tîm Cydlynwyr AAA



Prosiect Addysg Gymdeithasol ac Iechyd (SHEP) yn Ysgol Arbennig Riverbank yng Nghaerdydd



Ymwelwyr Iechyd Anghenion Arbennig



Digwyddiad Rhwydweithio Canolfan Blant Dewi Sant



Clybiau Gwyliau Teuluoedd yn Gyntaf y Fro (Cynllun Chwarae a Chynllun Pobl Ifanc yn eu Harddegau)



Cynhadledd Whizz Kidz



Caffi Rhieni Ysgol Uwchradd Woodlands



Digwyddiad Pontio Ysgol y Deri, Noson Rieni a Diwrnod Agored i Rieni

Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YN Y FRO

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, roedd 62 o negeseuon Facebook GGID y Fro yn ymwneud â chymorth, gweithgareddau a gwasanaethau i blant a phobl ifanc gydag anableddau ac anghenion ychwanegol. Llwyddodd neges benodol ynglŷn â 'Perfformiad Anffurfiol o Peter Pan' i gyrraedd 6,100 o bobl ac arwain at 386 o gliciau.

YSTADEGAU AR-LEIN:

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, mae'r tudalennau gwe Anghenion Ychwanegol wedi'u gweld 3,865 o weithiau ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Mae hyn wedi cynyddu o 31% dros y flwyddyn ddiwethaf.



ADBORTH

ADBORTH AR Y MYNEGAI YN Y FRO

Ar ôl cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, cysylltir â'r sawl sy'n ymholi i ofyn am adborth ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac yn fwy penodol, y Mynegai.

Dywedodd 100% o'r rhai hynny a ymatebodd fod yr wybodaeth y gwnaethon nhw ei derbyn wedi'u helpu nhw a dywedodd 95% fod y Mynegai wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu teulu.

ENGHREIFFTIAU O ADBORTH:

"Rwy'n hynod ddiolchgar i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro am y cymorth a'r anogaeth i ddefnyddio'r gwasanaethau. Cafodd fy nheulu gefnogaeth er mwyn galluogi fy mab i fynychu Superstars yn ystod y gwyliau (drwy'r Cynllun Cymorth Lleoedd) ac rydym wrthi'n aros ar hyn o bryd am asesiad gofalwr.

Yn fy marn i, pe na fydddech chi wedi cysylltu â fi, ni fyddwn wedi cael fy annog i ddefnyddio gwasanaethau a cheisio cymorth"

"Mae'r Mynegai'n amhrisiadwy i'n teulu ni; rydym wedi canfod cymaint o wybodaeth ddefnyddiol yn y cylchlythyrau..... Rwy'n rhoi cylch o amgylch yr holl erthyglau ac yn cadw'r cylchlythyrau fel bo modd i ni chwilio am weithgareddau i ni eu gwneud fel teulu. Mae gan fy mab ASA ac rydym wedi manteisio ar sesiynau marchogaeth yng Nghlwb Marchogaeth St Brides – byddai'n wych pe gallai'r clwb gysylltu â'r Clwb Sunshine yng Nghanolfan Blant Integredig Gorllewin y Fro fel y gall pawb fanteisio ar y sesiynau!"

"Rwyf wirioneddol wedi fy syfrdanu gan faint o gyfleoedd sydd ar gael – mae'n wych!"

"Gwasanaeth defnyddiol iawn – cyflwynwyd sawl cyfle drwy ffonio GGiD"

"Mae'r mynegai'n adnodd gwych i deuluoedd"

"Ni ellid gofyn am fwy. Mae cymorth gan y Cyngor wedi bod yn wych o ran y

gwasanaeth sydd ar gael a'r cymorth gan ofalwyr"

PLANT A PHOBL IFANC YN Y MYNEGAI: FFEITHIAU A FFIGYRAU CAERDYDD 2016-17

COFRESTRIDAU AC ATGYFEIRIADAU

Wedi'u cofrestru ar hyn o bryd – 156 o gofrestriadau

Dadgofrestru - 10 (nodwyd 18 yn lle 8, dau gofnod wedi'u dyblygu)

Atgyfeiriadau – 133 wedi'u hatgyfeirio at y Mynegai

- Ysgol 35
- Gweithiwr Cymdeithasol 29
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd 15
- Ymwelydd Iechyd 7
- Arall 47 gan gynnwys Clinigau Canolfan Blant Dewi Sant, Gweithredu Dros Blant


Hunan atgyfeiriadau – 23 wedi atgyfeirio eu hunain at y Mynegai

Mae'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau at y Mynegai yn dod o ysgolion (22%), o'i gymharu â dim ond 8% o atgyfeiriadau at y Mynegai ym Mro Morgannwg.

Mae'n werth nodi bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd yn bodoli o fewn y Sector Addysg a bod Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd yn bodoli o fewn y Sector Gwasanaethau Cymdeithasol.

SIART 1: FFYNONELLAU COFRESTRU Â'R MYNEGAI YNG NGAERDYDD


Ffynonellau Cofrestru â'r Mynegai 2016 - 2017



OEDRAN A RHYW

- Mae'r rhan fwyaf o blant (97, 62%) sydd wedi'u cofrestru â'r Mynegai yn wrywod.
- 13 dan 4 oed (8%, 5 Benyw, 9 Gwryw)
- 20 rhwng 4 a 7 oed (13%, 8 Benyw, 12 Gwryw)
- 50 rhwng 8 a 11 oed (32%, 14 Benyw, 36 Gwryw)
- 47 rhwng 12 a 15 oed (30%, 15 Benyw, 32 Gwryw)
- 15 rhwng 16 a 18 oed (10%, 6 Benyw, 9 Gwryw)
- 10 wedi dadgofrestru
- 156 i gyd (48 Benyw, 97 Gwryw, 10 wedi dadgofrestru)

Oedran a Rhyw Plant a Phobl Ifanc wedi'u cofrestru â'r Mynegai yng Nghaerdydd 2016 - 2017



SIART 2: DADANSODDIAD O OEDRAN A RHYW Y RHAI SYDD WEDI COFRESTRU Â'R MYNEGAI YNG NGHAE RDYDD 2016 - 2017

BRODYR A CHWIORYDD YN Y MYNEGAI


Dylid nodi hefyd fod gan 18 (12%) o blant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru frawd neu chwaer yn y Mynegai hefyd - mae cyfanswm o 8 teulu â mwy nag un plentyn yn y Mynegai yng Nghaerdydd.

ETHNIGRWYDD

Mae 43% o blant yn wyn (cyfanswm o 67 o blant), nid yw 50% wedi datgelu eu hethnigrwydd ac mae 8% (cyfanswm o 12 o blant) yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

O'r rhai hynny sydd wedi datgelu eu hethnigrwydd, mae 15.2% o gefndir ethnig lleiafrifol. Fodd bynnag, mae Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi mai dim ond 15.2% o boblogaeth Caerdydd sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

SIART 3: ETHNIGRWYDD PLANT A PHOBL IFANC AR Y MYNEGAI



SIART 3: ETHNIGRWYDD PLANT A PHOBL IFANC AR Y MYNEGAI

	Nifer wedi cofrestru
Gwyn	67
Asiaidd / Prydeinig Asiaidd	2
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	5
Grŵp Cymysg / Aml-ethnig	5
Heb ddatgelu	77
Cyfanswm	156

DADANSODDIAD DAEARYDDOL

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014 yn nodi 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod 38 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig (0 – 10%) Cymru yng Nghaerdydd.

Yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghaerdydd yw Sblot 6 (a'r 4ydd yng Nghymru), Trowbridge 8 (13eg yng Nghymru) a Threlái (24ain yng Nghymru) a thynnir sylw yn Nhabl 4 isod at ragor o wardiau sy'n cynnwys

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y nodir eu bod ymysg y 0 -10 % mwyaf difreintiedig.

Daw cyfanswm o 97 o blant a phobl ifanc yn y Mynegai (62%) o wardiau sy'n cynnwys 0 – 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae hefyd werth nodi bod 54 o blant a phobl ifanc ar y Mynegai (35%) yn dod o wardiau yng Nghaerdydd sydd ymysg y 25 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

TABL 4: LLEOLIAD PLANT SYDD WEDI'U COFRESTRU Â'R MYNEGAI YNG NGHAERDYDD YN ÔL WARD 2016 - 17			
Ward	Nifer wedi cofrestru	Ward	Nifer wedi cofrestru
Adamsdown*	3	Llanisien	4
Butetown*	3	Llanrhymini*	5
Caerau*	14	Pentwyn*	10
Treganna	6	Pentyrch	0
Cathays	5	Pen-y-lan	9
Creigiau / Sain Ffagan	0	Plasnewydd*	6
Cyncoed	3	Pontprennau / Pentre Llaneirwg	5
Trelái*	9	Radur / Pentre-poeth	2
Y Tyllgoed*	7	Rhiwbeina	7
Gabalfa	4	Glan-yr-afon*	3
Grangetown*	7	Tredelerch*	3
Y Mynydd Bychan	5	Sblot*	11
Llys-faen	6	Trowbridge*	10
Llandaf*	6	Yr Eglwys Newydd / Tongwynlais	3
Cyfanswm wedi'u cofrestru		156	
* wardiau'n cynnwys 0 – 10% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru			

<http://wimd.wales.gov.uk/geography/la/W06000015?lang=en#&min=0&max=10&domain=overall>

PRIF RESYMAU DROS GOFRESTRU

Wrth gofrestru ar y Mynegai, gofynnir i rieni / gofalwyr nodi'r prif reswm dros gofrestru ynghyd â rhestru unrhyw anawsterau / anableddau cysylltiedig eraill.


Sylwch y bydd y rhiant yn datgan anabledd eu plentyn ar sail diagnosis (os oes diagnosis), a'u canfyddiad o'r anabledd a sut mae'n effeithio ar y teulu. Er enghraifft, efallai y bydd un teulu sydd â phlentyn â Syndrom Downs yn nodi mai Anabledd Dysgu yw'r prif reswm, ond efallai y bydd teulu arall yn nodi mai Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol yw'r prif reswm, yn dibynnu ar sut yr effeithir ar y plentyn.

Mae Tabl 5 a Siart 4 yn dangos mai'r rheswm mwyaf cyffredin dros gofrestru yw Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, sydd yr un fath a'r prif reswm dros gofrestru yn y Fro. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blentyn na pherson ifanc sydd â nam ar y clyw neu anawsterau cyfathrebu / cymdeithasu, wedi cofrestru â'r Mynegai yng Nghaerdydd. Felly, bydd hynny'n faes ar gyfer rhagor o waith allgymorth

TABL 5: PRIF RESWM DROS GOFRESTRU Â'R MYNEGAI

Prif Reswm dros Gofrestru	2016 - 2017	
	Cyfanswm	%
Anhwylder Sbectrwm Awtistig	38	24%
Oedi Datblygiadol	35	22%
Anabledd dysgu	37	24%
Anabledd Corfforol / Salwch cronig	18	12%
Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasu	0	0%
Anawsterau Lleferydd / Iaith	6	4%
Nam ar y golwg	2	1%
Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol	7	4%
Nam ar y Clyw	0	0%
Arall	3	2%
Heb ddatgelu	10	6%
Cyfanswm	156	

TABL 4: PRIF RESWM DROS GOFRESTRU




PRIF RESYMAU DROS GOFRESTRU A DADANSODDIAD DAEARYDDOL YNG NGHAERDYDD 2016 - 2017

Mae map 1 (gweler tudalen 15) yn dangos anghenion y rhai hynny sydd wedi cofrestru â'r Mynegai yng Nghaerdydd a'u lleoliad daearyddol. Mae'r map yn dangos bod gwasgariad y cofrestriadau â'r Mynegai yn amrywio a bod y prif resymau dros gofrestru hefyd yn amrywio ar draws y Ddinas.

Mae'r map hefyd yn dangos na chafwyd unrhyw gofrestriadau â'r Mynegai yn ardal Creigiau / Sain Ffagan na Phentyrch, sy'n dangos angen i gysylltu â gwasanaethau cymorth ac ysgolion o fewn yr ardaloedd hyn i hyrwyddo'r Mynegai ac annog y rhai hynny sy'n byw ag anableddau neu anghenion ychwanegol yn yr ardaloedd hyn i gofrestru.

Mae'r rhan fwyaf o bobl a gofrestrodd â'r Mynegai sy'n byw yn Nhrelái wedi nodi Oedi Datblygiadol fel eu prif reswm dros gofrestru, ac mae'r rhai hynny sy'n byw yn Llanisien i gyd wedi nodi bod ganddynt Anabledd Dysgu.

Wrth i'r Mynegai ddatblygu yng Nghaerdydd, bydd modd mapio darlun cliriach o anghenion mewn ardaloedd penodol o'r Ddinas a gall hynny fod o gymorth wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion cymorth.



MAP 1: COFRESTRYADAU Â'R MYNEGAI YNG NGHAERDYDD YN ÔL PRIF RESWM DROS GOFRESTRU 2016 - 2017

RHESYMAU YCHWANEGOL DROS GOFRESTRU

Er bod teuluoedd yn nodi'r prif reswm dros gofrestru, mae gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc fwy nag un math o anabledd / anhawster sydd ag effaith ar eu bywydau. Gofynnir i deuluoedd nodi pa un a yw'r rhesymau ychwanegol hyn dros gofrestru yn ysgafn, canolig neu'n ddifrifol.

Mae gan dros hanner y rhai hynny ar y Mynegai Anawsterau Lleferydd / Iaith (54%), Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasu (53%), Oedi Datblygiadol (52%) neu Anabledd Dysgu (51%).

Nododd 60% o'r rhai hynny sydd ag Anawsterau Lleferydd ac Iaith yng Nghaerdydd fod graddfa eu hangen yn "Ddifrifol".


Cyfwyd Cyfanswm o 580 o resymau ychwanegol dros gofrestru; mae hyn yn golygu bod cofrestriad cyffredinol wedi nodi 3.5 rheswm ychwanegol dros gofrestru.

Amlinellwyd graddfa'r angen gan y rhan fwyaf o ymatebion, sef 42% (243), yn "Ddifrifol"; amlinellodd 38% (221) o ymatebion raddfa'r angen fel "Canolig"; a 19% (113) fel "Ysgafn".

Gellid egluro difrifoldeb angen y rhai hynny a gofrestrodd â'r Mynegai yng Nghaerdydd rhwng 2016 – 2017 yn ôl nifer y cofrestriadau yn ystod proses gychwyn y Mynegai a ddaeth o lwyth gwaith Tîm Iechyd ac Anableddau Plant o ganlyniad i waith a wnaethpwyd gan Weithiwr Cymdeithasol yn rhan o'r tîm mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd.

Mae Siart 5 yn dangos y rhesymau ychwanegol dros gofrestru yng Nghaerdydd 2016 - 2017 mewn mwy o fanylder.

SIART 5: RHESYMAU YCHWANEGOL DROS GOFRESTRU Â'R MYNEGAI YNG NGHAE RDYDD 2016 - 2017



ADDYSG

Un o nodau'r Mynegai yw nodi a dylanwadu ar wasanaethau ar sail anghenion cyfredol plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol a'u hanghenion i'r dyfodol.

DATGANIAD O ANGHENION ADDYSGOL / GOFYNION CYMORTH YCHWANEGOL

Mae Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Ionawr 2004) yn ystyried darpariaethau AAA Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledau 2001 ar gyfer:

- hawl cryfach i blant ag AAA i gael addysg mewn ysgol prif ffrwd
- dyletswyddau newydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i drefnu bod rhieni a phlant ag AAA yn cael cynnig gwasanaethau sy'n rhoi cymorth a gwybodaeth a datrysiad i wrthdaro
- dyletswydd newydd ar ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol i ddweud wrth rieni pan fônt yn cynnig darpariaeth addysg arbennig i'w plentyn
- hawl newydd i ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol wneud cais am asesiad statudol o blentyn

Nifer y plant oed ysgol gorfodol yng Nghaerdydd, sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn ôl adroddiad PLASC Ionawr 2016, yw 11,405, sef 21.2% o'r boblogaeth ysgol cyffredinol. Mae hyn trwy Ddatganiad, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Gweithredu gan yr Ysgol, sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol mewn ysgolion. Gallai hyn fod yn gymorth 1 i 1, offer arbennig ac ystod o gefnogaeth arall. Er na fyddai pob un o'r plant hyn yn gymwys ar gyfer y Mynegai, mae'n nodi y gallai llawer mwy o blant elwa o fod yn y Mynegai.

Ledled Caerdydd, mae gan 2% o'r boblogaeth ysgol Ddatganiad AAA, ac mae gan 97 (62%) o'r 156 sydd wedi cofrestru â'r Mynegai, Ddatganiad AAA.

Mae Tabl 6 yn nodi'r ysgolion sydd â disgyblion sydd wedi cofrestru â'r Mynegai a nifer y cofrestriadau gan bob un o'r ysgolion hyn drwy gydol 2016 – 2017. Nid oes gan yr ysgolion a restrir yn Nhabl 6 yr un disgybl yn rhan o'r Mynegai, sy'n golygu nad oes yr un disgybl yn rhan o'r Mynegai mewn 3 Ysgol Feithrin, 82 o ysgolion Cynradd, 14 Ysgol Uwchradd a 3 Ysgol Arbennig yng Nghaerdydd.

Mae 4 ysgol ychwanegol a fynychir gan y rhai hynny yn y Mynegai nad ydynt yn rhan o ystadegau CYBLD a ddangosir yn Nhabl 6: Ysgol y Deri (8 cofrestriad); Ysgol Annibynnol Wycliffe (1 cofrestriad); Rowden House (1 cofrestriad); ac Ysgol Red Rose (1 cofrestriad).

Dim ond 88 o'r 156 yn y Mynegai yng Nghaerdydd sydd wedi rhoi manylion am yr ysgol a fynychir ganddynt wrth gofrestru. Roedd y rhan fwyaf o'r cofrestriadau a roddodd wybodaeth am yr ysgol a fynychir (63%) yn dod o Ysgolion Arbennig yng Nghaerdydd. O ran y 37% arall na ddarparodd fanylion am yr ysgol a fynychir, efallai: nad ydynt o oedran ysgol; wedi gadael yr ysgol; neu heb roi'r wybodaeth hon wrth gofrestru. Cesglir yr wybodaeth hon yn ystod adolygiad blynyddol y cofrestriadau â'r Mynegai.

Ysgolion Meithrin	Cyfanswm â Datganiad AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol o ran AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o ran AAA	Cyfanswm Disgyblion	Nifer y Disgyblion wedi'u cofrestru â'r Mynegai
Cyfanswm ar draws yr holl Ysgolion Meithrin yng Nghaerdydd	2	21	9	315	0
Ysgolion Cynradd	Cyfanswm â Datganiad AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol o ran AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o ran AAA	Cyfanswm Disgyblion	Nifer y Disgyblion wedi'u cofrestru â'r Mynegai
Ysgol Gynradd Allensbank	21	51	17	303	1
Ysgol Gynradd Birchgrove	2	27	19	411	1
Ysgol Gynradd Coryton	4	19	10	238	1
Ysgol Gynradd Lakeside	8	51	21	521	1
Ysgol Gynradd Llanedern	31	20	28	399	5
Ysgol Gynradd Llanisien Fach	23	49	14	513	1
Ysgol Gynradd Llys-faen	8	15	9	454	2
Ysgol Gynradd Marlborough	24	28	2	532	2
Ysgol Gynradd Pentre-baen	24	10	3	224	1
Ysgol Gynradd Peter Lea	4	56	13	405	1
Ysgol Gynradd Parc y Rhath	7	46	26	483	1
Ysgol Gynradd Gatholig St Philip Evans	0	43	9	385	1
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville	3	57	28	242	1
Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd	8	73	20	707	3
Ysgol Gymraeg Treganna	6	47	15	583	1
Cyfanswm ar draws yr holl Ysgolion Cynradd yng Nghaerdydd	511	4101	1688	33086	20
Ysgolion Uwchradd	Cyfanswm â Datganiad AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol o ran AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o ran AAA	Cyfanswm Disgyblion	Nifer y Disgyblion wedi'u cofrestru â'r Mynegai
Ysgol Uwchradd Caerdydd	41	98	40	1627	2
Ysgol Uwchradd Cathays	28	166	43	826	1
Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi	20	95	57	1047	1
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant	34	144	91	1474	1
Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf	65	77	36	1227	8
Cyfanswm ar draws yr holl Ysgolion Uwchradd yng Nghaerdydd	534	2655	1332	19821	13
Ysgolion Arbennig	Cyfanswm â Datganiad	Cyfanswm	Cyfanswm Gweithredu	Cyfanswm	Nifer y Disgyblion

	AAA	Gweithre du gan yr Ysgol o ran AAA	gan yr Ysgol a Mwy o ran AAA	Disgybl ion	wedi'u cofrestru â'r Mynegai
Ysgol Riverbank	70	0	0	70	12
Ysgol The Hollies	83	0	0	83	10
Ysgol Tŷ Gwyn	168	0	2	170	13
Ysgol Uwchradd Woodlands	128	0	0	128	20
Cyfanswm ar draws yr holl Ysgolion Arbennig yng Nghaerdydd	550	0	2	552	55
Yr holl Ysgolion	Cyfanswm â Datganiad AAA	Cyfansw m Gweithre du gan yr Ysgol o ran AAA	Cyfanswm Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o ran AAA	Cyfans wm Disgybl ion	Nifer y Disgyblion wedi'u cofrestru â'r Mynegai
Cyfanswm ar draws yr holl Ysgolion yng Nghaerdydd	1597	6777	3031	53774	88

TABL 6: COFRESTRIDAU Â'R MYNEGAI YNG NGHAE RDYDD YN ÔL YR YSGOL A FYN YCHWYD A MANYLION AM ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG MEWN YSGOLION 2016 - 2017

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Pan sefydlwyd y Mynegai am y tro cyntaf yng Nghaerdydd, daeth llawer o'r cofrestradau cychwynnol o lwyth achosion y Tîm Iechyd ac Anableddau Plant (TIAP), sy'n golygu bod llawer o'r plant a phobl ifanc sydd wedi cofrestru yn bodloni meini prawf y TIAP.

Mae gan 28% (44 o 156) o'r rhai hynny yn y Mynegai yng Nghaerdydd Weithiwr Cymdeithasol - mae hyn 5% yn is na'r ganran yn y Fro.

Mae 15% o'r rhai hynny yn y Mynegai yng Nghaerdydd wedi derbyn Asesiad gan Ofalwr

GWASANAETHAU A DDERBYNIWYD

Rydym bellach yn gofyn i rieni/gofalwyr a ydynt yn derbyn gwasanaethau penodol:

TABL 7: GWASANAETHAU A DDERBYNIWYD GAN Y RHAI HYN NY YN Y MYNEGAI YNG NGHAE RDYDD 2016 - 2017

Gweithiwr Cymdeithasol (GC)	44
GC ar gyfer Nam Synhwyraidd	3
Pecyn Cartref	7
Seibiant	45
Taliadau Uniongyrchol	44
Arall	6
Asesiad Gofalwyr	23


IECHYD

Cydnabyddir yn eang bod gan blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol anghenion iechyd mwy dwys na gweddill y boblogaeth. Mae'r rheiny gydag anableddau yn cael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau iechyd i fodloni eu hanghenion iechyd arferol a'u gofynion iechyd ychwanegol drwy gael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Mae Siart 6 yn dangos y gwasanaethau iechyd y mae gan blant yn y Mynegai fynediad atynt.

Mae ymatebion yn y categori "Arall" yn cynnwys: Y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol; Orthoteg; Peditrydd; a CAMHS.

SIART 6: GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL Y DEFNYDDIWDYD EU GWASANAETHAU GAN BLANT A PHOBL IFANC YN Y MYNEGAI (CAERDYDD)



PLANT A PHOBL IFANC YN Y MYNEGAI: FFEITHIAU A FFIGYRAU BRO MORGANNWG 2016-17

COFRESTRIDAU, ADOLYGIADAU AC ATGYFEIRIADAU

Wedi cofrestru ar hyn o bryd – 501 / cynnydd o 27% a chyfanswm o 128 o gofrestrïadau newydd

Dadgofrestru – 23 (2 wedi marw, 6 heb fanylion cyswllt, newidiwyd 15 yn 18)

Adolygiadau – 306 / cynnydd o 46%


Atgyfeiriadau – 128 o atgyfeiriadau newydd i'r Mynegai gan:

- Weithiwr Cymdeithasol 31
- Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig 36
- Llinell Gyngor Teuluoedd Yn Gyntaf 26

- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd 19
- Ysgol 10
- Teuluoedd yn Cyflawni Newidiadau gyda'i Gilydd (FACT) 5
- Cydlynedd Ffrwd Anabledd 4

Daw'r nifer uchaf o atgyfeiriadau at y Mynegai gan yr Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig (28%). Ers datblygu'r Llinell Gymorth Teuluoedd yn Gyntaf, bellach daw 20% o atgyfeiriadau at y Mynegai drwyddi, sy'n arwydd o lwyddiant y bartneriaeth sydd wedi'i ffurfio rhwng y ddau wasanaeth.

SIART 7: FFYNONELLAU COFRESTRU Â'R MYNEGAI YM MRO MORGANNWG 2016 - 17



OEDRAN A RHYW

- Mae'r rhan fwyaf o blant (347, 69%) sydd wedi'u cofrestru â'r Mynegai yn wrywod.
- 35 dan 4 oed (66% Gwrywaidd, 34% Benywaidd)
- 170 rhwng 4 a 7 oed (71% Gwrywaidd, 29% Benywaidd)
- 129 rhwng 8 a 11 oed (70% Gwrywaidd, 30% Benywaidd)
- 102 rhwng 12 a 15 oed (68% Gwrywaidd, 32% Benywaidd)
- 50 rhwng 16 a 18 oed (72% Gwrywaidd, 28% Benywaidd)
- 15 dros 18 oed (dadgofrestru) (60% Gwrywaidd, 40% Benywaidd)
- 501 i gyd

SIART 8: OEDRAN A RHYW PLANT WEDI'U COFRESTRU Â'R MYNEGAI YM MRO MORGANNWG 2016 - 17


BRODYR A CHWIORYDD YN Y MYNEGAI

Dylid nodi hefyd fod gan 72 (14%) o blant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru frawd neu chwaer yn y Mynegai hefyd - mae cyfanswm o 33 o deuluoedd â mwy nag un plentyn yn y Mynegai.

ETHNIGRWYDD

Mae 74% o blant yn wyn (cyfanswm o 372 o blant), nid yw 22% wedi datgelu eu hethnigrwydd ac mae 4% (cyfanswm o 21 o blant) yn dod a gefndir ethnig lleiafrifol. Mae Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi mai dim ond 3.56% o boblogaeth y Fro sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

SIART 9: ETHNIGRWYDD PLANT SYDD WEDI COFRESTRU
Â'R MYNEGAI YM MRO MORGANNWG 2016 - 2017



SIART 8: ETHNIGRWYDD PLANT SYDD WEDI COFRESTRU
Â'R MYNEGAI YM MRO MORGANNWG 2016 - 2017

Ethnigrwydd	Nifer wedi cofrestru
Gwyn	372
Asiaidd / Prydeinig Asiaidd	12
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	6
Grŵp Cymysg / Aml-ethnig	3
Heb ddatgelu	108
Cyfanswm	501

DADANSODDIAD DAEARYDDOL

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014 yn nodi 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod 4 ardal ym Mro Morgannwg ymysg yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig (rhwng 0 – 10%) Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys Gibbonsdown 2 (rhif 83 yng Nghymru), Court (rhif 169 yng Nghymru), Cadog 4 (rhif 178 yng Nghymru) a Castleland (rhif 181 yng Nghymru). Mae cyfanswm o 164 o blant a phobl ifanc (33%) yn y Mynegai yn dod o'r wardiau hyn, fodd bynnag nid oes gennym ddata ar faint ohonynt sydd yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen penodol - mae 55% yn dod o'r Barri i gyd. Mae angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo'r Mynegai i deuluoedd yn y Fro Wledig.

Gwelodd rhai wardiau leihad yn y nifer o blant yn y Mynegai yn y flwyddyn ddiwethaf: Cornerswell, Sant-y-brid a Llanbedr-y-fro. Fodd bynnag, y wardiau sydd wedi gweld cynnydd o fwy na 10 o blant neu fwy yw Illtyd, Court, Cadog a Buttrills.

TABL 9: DADANSODDIAD DAEARYDDOL O GOFRESTRIADAU Â'R MYNEGAI YM MORGANNWG 2016 – 2017 (FESUL WARD)

Ward	Plant yn y Mynegai 2014/15	Plant yn y Mynegai 2015/16	Plant yn y Mynegai 2016/17	Cynnydd/ Lleihad
Cadog*	40	51	59	+18
Llanilltud Fawr	33	40	46	+6
Gibbonsdown*	25	21	34	+13
Sain Tathan	24	27	30	+3
Court*	23	33	47	+14
Buttrills	21	28	46	+18
Illtyd	21	25	35	+10
Castleland*	18	18	24	+6
Y Rhws	17	24	27	+3
Dinas Powys	13	17	24	+7
Dyfan	12	14	16	+2
Cornerswell	12	15	11	-4
St Augustine's	11	11	15	+4
Plymouth	9	6	9	+3
Stanwell	8	12	15	+3
Baruc	8	12	16	+4
Llandochau	7	8	8	0
Sili	6	5	7	+2
Saint-y-brid	5	5	4	-1
Gwenfô.	5	8	8	0
Y Bont-faen	4	8	14	+6
Llanbedr-y-fro	1	2	1	-1
Llandŵ / Ewenni	1	3	5	+2
Cyfanswm	324	393	501	

Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn y wardiau hyn ymysg y 0 – 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

<http://wimd.wales.gov.uk/geography/la/W06000014?lang=en#&min=0&max=10&domain=overall>

MAP 2: COFRESTRIADAU Â'R MYNEGAI YM MRO MORGANNWG 2016 – 2017 FESUL WARD

PRIF RESWM DROS GOFRESTRU

Wrth gofrestru ar y Mynegai, gofynnir i rieni / gofalmwyr nodi'r prif reswm dros gofrestru ynghyd â rhestru unrhyw anawsterau / anabledau cysylltiedig eraill.

Sylwch y bydd y rhiant yn datgan anabled eu plentyn ar sail diagnosis (os oes diagnosis), a'u canfyddiad o'r anabled a sut mae'n effeithio ar y teulu. Er enghraifft, efallai y bydd un teulu sydd â phlentyn â Syndrom Downs yn nodi mai Anabled Dysgu yw'r prif reswm, ond efallai y bydd teulu arall yn nodi Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol, yn dibynnu ar sut yr effeithir ar y plentyn.

Mae Tabl 3 yn nodi mai Anhwylder Sbectrwm Awtistig sy'n parhau i fod y rheswm mwyaf cyffredin dros gofrestru (31%), a chynnydd o 34 o blant wedi'u cofrestru yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae nifer y plant sy'n cofrestru yn bennaf oherwydd Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol wedi dyblu bob blwyddyn gyda chyfanswm o 48 o blant bellach wedi'u cofrestru. Mae hyn yn golygu bod cymaint o blant yn y Mynegai yn cofrestru ar gyfer Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol ag a geir yn cofrestru ar gyfer Anabled Corfforol / Salwch Cronig.


Mae 81% o'r plant sy'n cofrestru oherwydd Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol wedi nodi bod gan eu plentyn Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiog.

Mae hyn yn amrywio'n fawr o'i gymharu â chofrestriadau yng Nghaerdydd, lle y ceir ond 7 plentyn (4%) sydd wedi nodi Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol fel eu prif reswm dros gofrestru. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau yng Nghaerdydd yn dod o'r Tîm TIAP neu Ysgolion Arbennig

TABL 10: PRIF RESWM DROS GOFRESTRU A'R NIFER A GOFRESTRWYD YN Y MYNEGAI YM MRO MORGANNWG BOB BLWYDDYN

Prif Reswm Dros Gofrestru	2014 – 2015		2015 - 2016		2016 – 2017	
	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Anhwylder Sbectrwm Awtistig	103	31%	121	31%	155	31%
Oedi Datblygiadol	68	21%	56	14%	62	12%
Anabled dysgu	56	17%	32	8%	34	7%
Anabled Corfforol / Salwch Cronig	45	14%	39	10%	48	10%
Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasu	17	5%	10	3%	12	2%
Anawsterau Lleferydd / Iaith	11	3%	7	2%	11	2%
Nam ar y golwg	10	3%	3	1%	6	1%
Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol	10	3%	24	6%	48	10%
Nam Clywed	7	2%	11	3%	14	3%
Arall	Dd/B		4	1%	7	1%
Sawl peth	Dd/B		13	3%	36	7%
Heb ddatgelu	Dd/B		73	19%	68	14%
Cyfanswm	327		393		501	

SIART 10: PRIF RESWM DROS GOFRESTRU Â'R MYNEGAI YM
MRO MORGANNWG 2016 - 2017



RHESYMAU YCHWANEGOL DROS GOFRESTRU


Er bod teuluoedd yn nodi'r prif reswm dros gofrestru, mae gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc fwy nag un math o anabledd / anhawster sydd ag effaith ar eu bywydau. Gofynnir i deuluoedd nodi pa un a yw'r rhesymau ychwanegol hyn dros gofrestru yn ysgafn, canolig neu'n ddifrifol.

Mae categori newydd "Dan Asesiad" wedi'i ychwanegu at yr adran Rhesymau Ychwanegol dros Gofrestru y ffurflen eleni, yn dilyn adborth gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol fod asesiad i raddfa'r angen ar waith mewn rhai achosion. Mae "Dan Asesiad" wedi'i ddefnyddio 38 o weithiau (3% o'r holl ymatebion).

Mae gan 42% (164 o blant) o'r rhai hynny yn y Mynegai Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasu, wedi'i ddilyn gan Oedi Datblygiadol (159 o blant), yna Anawsterau Lleferydd / Iaith (156 o blant), Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol (150 o blant).

Amlinellodd 63% o ymatebion raddfa'r angen fel "Canolig".
Amlinellodd 22% o ymatebion raddfa'r angen fel "Difrifol".
Amlinellodd 12% o ymatebion raddfa'r angen fel "Ysgafn".

Mae Siart 5 yn nodi hyn yn fanwl.



SIART 5: RHESYMAU YCHWANEGOL A GRADDFFA'R ANGEN AM GOFRESTRU Â'R MYNEGAI YM

GWYBODAETH YCHWANEGOL Y GOFYNNWYD AMDANI

Wrth gofrestru, rydym ni'n gofyn a hoffai'r teulu unrhyw wybodaeth i gefnogi nhw a'u plentyn. Cawsom yr ymatebion canlynol:

TABL 11: GWYBODAETH YCHWANEGOL Y GOFYNNWYD AMDANI GAN DEULUOEDD Y FRO 2016 -2017

Rhagor o wybodaeth	117
Gweithgareddau	42
Grwpiau Cymorth / Cymorth Cyffredinol	39
Clybiau Chwaraeon Anabledd	8
Cynlluniau Chwarae a Gweithgareddau Haf	8
Cymorth Ariannol / Budd-daliadau	7

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

- Mae 25% o'r rheiny yn y Mynegi ynghlwm wrth y Tîm Anableddau a lechyd Plant ar hyn o bryd.
- Mae 69% o lwyth achos y Tîm (125 allan o 182 o blant a phobl ifanc) wedi'u cofrestru yn y Mynegai.
- Mae gan 158 o blant yn y Mynegai (32%) Weithiwr Cymdeithasol.

Yn dilyn penodi Swyddog Cefnogi Gofalwyr o fewn y Tîm lechyd ac Anableddau Plant, sefydlwyd cyswllt cryf i sicrhau bod y bobl sy'n newydd yn y Mynegai yn cael cynnig Asesiad Gofalwyr.

Am gyfnod sylweddol o amser yn 2016 – 2017, roedd swydd y Swyddog Cefnogi Gofalwyr o fewn y Tîm lechyd ac Anableddau Plant yn wag. Blaenoriaeth ar gyfer 2017-18 fydd ailsefydlu'r cyswllt â'r Swyddog Cefnogi Gofalwyr sydd newydd ei benodi i sicrhau bod teuluoedd yn cael asesiadau lle y gofynnir am hynny.

Mae 10% o rieni/gofalwyr yn y Mynegai wedi derbyn Asesiad Gofalwyr ac mae 8% wedi'u hatgyfeirio i gael Asesiad Gofalwyr.

Yn yr un modd, anogir rhieni/gofalwyr sy'n cael eu atgyfeirio at y Swyddog Cefnogi Gofalwyr drwy ffynonellau amgen i gofrestru ar y Mynegai.

GWASANAETHAU A DDERBYNIWYD

Rydym bellach yn gofyn i rieni/gofalwyr a ydynt yn derbyn gwasanaethau penodol:

TABL 7: GWASANAETHAU A DDERBYNIWYD GAN Y RHAI HYNNY YN Y MYNEGAI YN Y FRO 2016 - 2017

Gweithiwr Cymdeithasol	158
GC ar gyfer Nam Synhwyrdd	7
Pecyn Cartref	1
Seibiant	13
Taliadau Uniongyrchol	5

Arall	22
Asesiad Gofalwyr	51 (ac mae 38 wedi'u hatgyfeirio)

ADDYSG

Un o nodau'r Mynegai yw nodi a dylanwadu ar wasanaethau ar sail anghenion cyfredol plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol a'u hanghenion i'r dyfodol.

Gwelir y cynnydd mwyaf mewn atgyfeiriadau gan ysgolion yn Ysgol Gynradd Tregatwg, Ysgol Gynradd Romilly, Ysgol Gynradd y Stryd Fawr, Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gynradd Dinas Powys.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod (84%) mewn cofrestriadau ar gyfer plant ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol na'r ysgol feithrin a chynnydd o 280% mewn cofrestriadau ar gyfer plant sy'n mynychu'r ysgol feithrin neu gylch chwarae.

Gellid egluro hyn drwy'r cysylltiad parhaus rhwng y Mynegai ac Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig y Fro, yn ogystal â'r gweithwyr Ymdeimlad o Chwarae sy'n ymgysylltu â phlant cyn ysgol ac yn hyrwyddo'r Mynegai i'r teuluoedd hyn.

DATGANIAD O ANGHENION ADDYSGOL / GOFYNION CYMORTH YCHWANEGOL

Mae Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Ionawr 2004) yn ystyried darpariaethau AAA Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau 2001 ar gyfer:

- hawl cryfach i blant ag AAA i gael addysg mewn ysgol prif ffrwd
- dyletswyddau newydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i drefnu bod rhieni a phlant ag AAA yn cael cynnig gwasanaethau sy'n rhoi cymorth a gwybodaeth a datrysiad i wrthdaro
- dyletswydd newydd ar ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol i ddweud wrth rieni pan fônt yn cynnig darpariaeth addysg arbennig i'w plentyn
- hawl newydd i ysgolion a darparwyr addysg feithrin perthnasol wneud cais am asesiad statudol o blentyn

Nifer y plant oed ysgol gorfodol yn y Fro, sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn ôl adroddiad PLASC Ionawr 2016, yw 3,642, sef 21.6% o'r boblogaeth ysgol gyffredinol. Mae hyn trwy Ddatganiad, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Gweithredu gan yr Ysgol, sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol mewn ysgolion. Gallai hyn fod yn gymorth 1 i 1, offer arbennig ac ystod o gefnogaeth arall. Er na fyddai pob un o'r plant hyn yn gymwys ar gyfer y Mynegai, mae'n nodi y gallai llawer mwy o blant elwa ar fod yn y Mynegai.

O'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru â'r Mynegai, mae gan 33% ohonynt ddatganiad o angen; mae hyn wedi gostwng o 7% ers 2015 – 2016. Gellid esbonio hyn oherwydd y cynnydd sydyn o blant cyn ysgol sydd wedi cofrestru â'r Mynegai.

		+/-			+/-
Ysgol Y Deri	72	+6	Ysgol Gynradd Fairfield	3	+1
Ysgol Gynradd Tregatwg	19	+10	Ysgol Gynradd Evenlode	3	+1
Ysgol Gynradd Romilly	16	+4	Ysgol Gyfun Y Bont-faen	3	+2

TABL 13: COFRESTRIDAUAU Â'R MYNEGAI YN ÔL YSGOL A FYNCHWYD

Ysgol Gynradd Palmerston	15		Ysgol Gynradd Sili	2	+1
Ysgol Gynradd Parc Jenner	14	-1	Ysgol Gyfun Stanwell	2	
Ysgol Gynradd Gladstone	14	+2	Ysgol Gynradd Llansanffraid	2	
Ysgol Gynradd Sant Illtud	13	+2	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Andrew	2	
Ysgol Gynradd Llandochau	12	+3	Coleg Caerdydd a'r Fro	2	
Stryd Fawr	12	+6	Ysgol Gyfun Bryn Hafren	2	+1
Ysgol Gynradd Dinas Powys	12	+6	Ysgol Sant Curig	1	+1
Ysgol Gynradd Cogan	12	+8	Ysgol Sant Baruc	1	
Ysgol y Ddraig	11	+4	Ysgol Gwaun y Nant	1	
Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg	11	+3	Ysgol Dewi Sant	1	+1
Ysgol Gyfun Sant Richard Gwyn	11	+3	Tŷ Westbourne	1	
Ysgol Gyfun St Cyres	11	+2	Ysgol Gynradd Pendeulwyn	1	+1
Ysgol Gynradd St Helens	10	+4	Ysgol Gynradd Llansannwyr	1	+1
Ysgol Gynradd Sain Tathan	10	+3	Ysgol Gynradd Llan-gan	1	+1
Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr	9	+3	Ysgol Gynradd Llanfair	1	
Ysgol Gynradd Holltwn	9	+4	Ysgol Headlands	1	
Ysgol Gyfun y Barri	9	+4	Ymddiriedolaeth Amelia	1	
Ysgol Gynradd Colcot	7	+2	Ysgol Gynradd Albert	1	
Ysgol Gynradd Oakfield	6	+4			
Ysgol Gynradd y Rhws	5	+1	Rhy Ifanc	3 5	+ 16
Ysgol Gynradd Ynys y Barri	5		Meithrinfa / Grŵp Chwarae	1 9	+14
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau	5	+2	Heb ddatgelu	6 1	- 21
Ysgol Iolo Morgannwg	4		Derbyn addysg o gartref	4	+1
Ysgol Gynradd Victoria	4	+3	Ddim yn y Sir	1 1	+5
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô	4	+1	Cyfanswm	501	
Y Bont Faen	3	+1			

IECHYD


Cydnabyddir yn eang fod gan blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol anghenion iechyd mwy dwys na gweddill y boblogaeth. Mae'r rheiny gydag anableddau yn cael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau iechyd i fodloni

eu hanghenion iechyd arferol a'u gofynion iechyd ychwanegol drwy gael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol.

Mae 60% o blant a phobl ifanc yn y Mynegai yn y Fro yn gweld Nyrs Baediatreg / Gweithiwr Paediatreg Cymunedol, ac mae 13% wedi ymateb gydag "Arall" sy'n cynnwys: CAMHS; y Gwasanaeth Lles Emosiynol, Orthoteg; a'r Gwasanaeth Niwroddatblygiadol.

Mae Siart 6 yn dangos y gwasanaethau iechyd y mae gan blant yn y Mynegai fynediad atynt.

SIART 12: GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL Y DEFNYDDIWDYD EU GWASANAETHAU GAN BLANT A PHOBL IFANC YN Y MYNEGAI (BRO MORGANNWG)



MANYLION CYSWLLT

CAERDYDD

SWYDDOG MYNEGAI ANABLEDD
GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD
Y GANOLFAN GYNADLEDDAU
EASTMOORS ROAD
CAERDYDD
CF24 5RR

029 2035 1700 / MYNEGAIANABLEDD@CAERDYDD.GOV.UK

WWW.CARDIFF-FIS.INFO

BRO MORGANNWG
GWEINYDDWR MYNEGAI ANABLEDD
GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD
SWYDDFA'R DOC
HEOL YR ISFFORDD
Y BARRI
BRO MORGANNWG
CF63 4RT

01446 704 736 / DISABILITYINDEX@VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK

WWW.VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK/DISABILITYINDEX